# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

## 2 Annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol

(1) Nid yw'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, i fod o dan gyfarwyddyd na rheolaeth y **[**[F1]Senedd**]** na Chomisiwn y **[**[F1]Senedd**]**.

(2) Rhaid i'r Bwrdd—

- (a) weithredu'n gyffredinol mewn modd agored a thryloyw, a
- (b) cyhoeddi ar wefan y **[**[F2]Senedd**]** y cyfryw wybodaeth a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd gael eu hysbysu am ei weithgareddau.

(3) Nid yw is-adran (2) yn atal y Bwrdd rhag ystyried mater yn breifat na rhag cadw ei ystyriaeth ar y mater hwnnw'n breifat os yw natur y mater hwnnw, ym marn y Bwrdd, yn golygu ei bod yn briodol gwneud hynny.

(4) Rhaid i'r Bwrdd, cyn arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, ymgynghori â'r personau a ganlyn y mae'n debyg yr effeithir arnynt, oni bai bod y Bwrdd yn credu bod amgylchiadau sy'n golygu ei bod yn amhriodol gwneud hynny—

- (a) **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]**,
- (b) staff a gyflogir gan **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]** (neu gan **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]**),
- (c) undebau llafur perthnasol, a
- (d) unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd, wrth ymgynghori ag **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]**, roi sylw i is-adran (1).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**F2** Gair yn a. 2(2)(b) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 4(3)**

**F3** Geiriau yn Measure wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(10)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 4(7)(8))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 mewn grym ar 24.9.2010 yn unol ag **a. 20(3)(4)** ac fel y nodir yn yr hysbysiad gofynnol, gweler https://senedd.cymru/media/1t3mmgav/gen-ld8227-e-cymraeg.pdf

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 2.